**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru,
a'r Trefnydd

21 Ionawr 2022

Annwyl Lesley,

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Yn ystod ein cyfarfod ar 10 Ionawr 2022 gwnaethom drafod eich llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr 2021 ynghylch rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Rhif 2) 2021.

Gwnaethom nodi â phryder eich asesiad bod y Rheoliadau hyn yn "codi cwestiynau mewn perthynas â Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu" ond eich bod yn "fodlon nad Gweinidogion Cymru sy'n atebol am y risgiau hyn."

Fel y gwyddoch, mae'n ofynnol i'r Senedd a Gweinidogion Cymru gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol o dan y setliad datganoli a Chod Gweinidogol Llywodraeth Cymru.

Yn y Bumed Senedd, dyma a ddywedodd Jeremy Miles, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd ar y pryd, wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'n rhagflaenodd:

> *"It is inconceivable that the [Welsh] Government would recommend to the Senedd a piece of legislation that breaches international law, Chair. There's no question of that."*

Felly , byddem yn croesawu eglurhad pellach ar y datganiadau a wnaed yn eich llythyr ac a ydynt yn gwyro oddi wrth y sefyllfa a nodwyd gan Lywodraeth flaenorol Cymru yn gynharach ym mhroses Ymadael yr UE i'r pwyllgor a'n rhagflaenodd.

Byddem yn ddiolchgar felly pe gallech ateb yr ymholiadau a ganlyn:

- A yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Rheoliadau hyn yn torri rhwymedigaethau rhyngwladol y DU?
- A yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Rheoliadau hyn yn anghyson â chytundebau rhyngwladol ac, os felly, pa rai?

- A allech gadarnhau bod eich pryderon wedi'u cyfleu i Lywodraeth y DU? Os felly, a allech fanylu ar natur y trafodaethau hynny?

- Pa ystyriaeth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i oblygiadau ei chefnogaeth i ddeddfwriaeth a allai fynd yn groes i rwymedigaethau rhyngwladol y DU a'i Chod Gweinidogol ei hun, sy'n nodi’n benodol gydymffurfiaeth â’r gyfraith, gan gynnwys “cyfraith ryngwladol a rhwymedigaethau mewn cytuniadau"?

Rwy’n anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog yr Economi, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, y Gweinidog Newid Hinsawdd, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 1 Chwefror 2022.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd